**RHEOLWR PROFIAD YMWELWYR**
**Theatr Clwyd a Neuadd William Aston**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Profiad

Yn gyfrifol am: Cydlynydd Profiad, Dirprwy Reolwyr Profiad

Yn adrodd i: Uwch Reolwr Profiad

## Pwrpas y Swydd

Cefnogi'r Uwch Reolwr Profiad i sicrhau bod Theatr Clwyd a Neuadd William Aston yn rhedeg yn esmwyth. Bydd y Rheolwr Profiad Ymwelwyr yn sicrhau bod y theatr yn cael ei gweithredu'n effeithlon, yn cyfrannu at ddatblygu a chyflawni amcanion busnes allweddol, gan atgyfnerthu Theatr Clwyd a Neuadd William Aston fel cyrchfannau lle mae Gwesteion yn derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf.

## Cyfrifoldebau allweddol

### Cyfrifoldebau Rheoli / Cefnogi'r Cwmni

- Goruchwylio'r broses o recriwtio a datblygu'r Tîm Profiad rheng flaen i sicrhau bod gan holl Aelodau'r Cwmni agwedd hyblyg a chyfeillgar a'u bod yn teimlo'n rhan o'r sefydliad.
- Annog cymryd risgiau, gwaith caled a meddwl yn greadigol a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol a chefnogol sy'n canolbwyntio ar les.
- Cynnal sesiwn briffio dyddiol o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn yr adeilad i dimau'r bore a'r prynhawn.

### Profiad

- Gweithredu fel Dirprwy Reolwr Profiad ar rai shifftiau dydd a nos. Yn ystod shifftiau pryd mae perfformiad, cysylltu â staff cynhyrchu i reoli perfformiadau'r lleoliad. Bod yn gyfrifol am les a diogelwch y gynulleidfa, goruchwylio cyfrif yr arian, rheoli'r tîm Profiad a chloi'r adeilad.
- Gweithio gyda'r Uwch Reolwr Profiad ar bob cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan sicrhau ein bod yn lleoliad hygyrch.
- Sicrhau bod ymwelwyr ag anghenion ychwanegol neu ofynion mynediad yn cael eu croesawu i'n hadeilad hygyrch.
- Gyda'r Uwch Reolwr Profiad, gweithredu cynigion diodydd a byrbrydau newydd arloesol sy'n cynnwys gwasanaeth bar yn Neuadd William Aston.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Digwyddiadau i sicrhau bod digwyddiadau'n rhedeg yn esmwyth.
- Arwain ar ddatblygu a chyfathrebu hunaniaeth unigryw ar gyfer gwirfoddoli yn Theatr Clwyd a Neuadd William Aston.

## Ariannol

- Rheoli'r gwasanaeth gweithredol rheng flaen yn Theatr Clwyd a Neuadd William Aston, gan sicrhau safonau rheoli perfformiad trwyadl a thrwy hynny sicrhau'r elw masnachol mwyaf yn unol â thargedau'r cynllun busnes.

- Herio ac adolygu gweithrediadau yn barhaus i nodi meysydd ar gyfer gwell effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac arloesedd, gan wneud newidiadau angenrheidiol i wella safonau gwasanaeth a chynyddu proffidioldeb.
- Arwain ar reoli a goruchwylio gweithdrefnau a mesurau rheoli ariannol ar gyfer gwasanaethau gweithredol, gan gynnwys stoc a nwyddau
- Gweithio gyda'r Cydlynydd Profiad, a'r Dirprwy Reolwyr Profiad, i roi trefn gadarn ar reoli stoc ac archebu ar draws pob maes masnachu

## Iechyd a Diogelwch

- Monitro gweithgareddau a rhannau o'r adeilad i wirio am gydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch wedi'i diweddaru

## Arall

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan yr Uwch Reolwr Profiad

## Manyleb y Person

### Hanfodol

- Sgiliau arwain tîm hyderus a llawn cymhelliant, gyda phrofiad o reoli pobl a materion o ddydd i ddydd cysylltiedig.
- Profiad o reoli tîm mawr.
- Profiad o reoli cyllidebau refeniw a gwariant.
- Profiad clir o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd uchel.
- Y gallu i greu amgylchedd croesawgar ar gyfer ystod amrywiol o ddefnyddwyr adeiladau.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth diodydd ac arfer gorau.
- Sgiliau rhifedd cadarn.

### Dymunol

- Diddordeb brwd ym myd y theatr a'r celfyddydau.
- Profiad o oruchwylio gweithrediad manwerthu.
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a / neu Gymorth Cyntaf.
- Trwydded yrru lawn.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.